PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 26 Mehefin 26, 2025 50c.

## JR – 'Amser i ddiolch, ac amser i gofio'

*Diolch Salem i'r Parchg J. Ronald Williams ar ei ymddeoliad fel gweinidog*

Sul y Pasg ydy'r Sul pwysicaf yn y calendr eglwysi i ni sy'n Gristnogion. Mae arwyddocâd arbennig mewn dod at ein gilydd i ddathlu atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist. Roedd hyn yn wir yn Salem eleni. Ond roedd rheswm arall fod y Sul yn un arbennig i ni fel eglwys am mai dyma Sul olaf y Parchg J. Ronald Williams fel ein gweinidog.

Rhaid mynd yn ôl i 1979 i nodi Sul cyntaf Ron Williams fel gweinidog Salem. Daeth i Gaernarfon efo Rhian, ei wraig a'u dau o blant: Mererid a Peredur, a hynny yn dilyn cyfnod o weinidogaethu yn Tabernacl Pen-y-bont a Bethania Cwmafan, sef yr eglwys ble gafodd ei ordeinio. Yn fuan ar ôl cyrraedd Caernarfon cafodd Heddwen ei geni ac roedd teulu bach Llety'r Bugail yn gyflawn. Er, erbyn hyn mae'r teulu bach yn deulu o 15 (a 4 ci!) pan fydd pawb yn llwyddo i ddod at ei gilydd.

*mwy ar dudalen 2*





## Darllenydd ffyddlon



Dyma lun o Mrs Megan Williams o eglwys Berea, Pentre Berw, Ynys Môn yn mwynhau darllen *Y Tyst*. Mae Megan Williams wedi derbyn *Y Tyst* ers dros hanner can mlynedd, a byth yn blino canmol y cynnwys. Dim byd yn anghyffredin yn hyn, ond y ffaith yw y bydd Mrs Megan Williams yn dathlu ei phen-blwydd yn 99 ar Fehefin 30.

Rhyw bythefnos yn ôl symudodd Megan Williams i gartref preswyl ac eisoes mae'r trefniadau wedi eu gwneud iddi dderbyn *Y Tyst* yn wythnosol. I fyny at y Nadolig roedd Megan Williams yn mynychu'r capel bob Sul ac yn cyflawni ei dyletswyddau fel diacon ac wrth gwrs yn gefn mawr i'r achos. Pleser mawr ganddi oedd cysylltu gyda phregethwyr y Sul canlynol i sicrhau fod 'popeth yn iawn'.

Mae eglwys Berea yn rhan bwysig o'i bywyd ac yn parhau i fod gan mai'r cwestiwn cyntaf a gaf ar bob ymweliad ydi, 'Sut oedd pethau yn y capel? Roeddwn yn meddwl amdanoch.'

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau ati ym Mhlas Mona, a phen-blwydd hapus iawn ddiwedd y mis.

# JR – 'Amser i ddiolch, ac amser i gofio' – parhad

**Gweithgar**

Bu'r 45 mlynedd yn gyfnod prysur ac er ei fod yn dad i mi, mae'n deg ddweud ei fod wedi bod yn weinidog gofalus o'i braidd ac yn arweinydd brwdfrydig a doeth. Ymestynnai ei weinidogaeth i bob rhan o gymdeithas gan roi popeth i wasanaethu ei Arglwydd ac i rannu Ei Efengyl ymysg aelodau hen ac ifanc a drwy ei waith o fewn y gymuned; yn benodol efo grwpiau fel Taro Fewn, Cyfeillion Ysbyty Eryri ac yn arbennig GISDA lle bu'n sylfaenydd a chadeirydd am fwy nag un cyfnod.

**Cydlafurio**

Yn 2006 daeth ychydig o newid i drefn y weinidogaeth yn Salem ar ôl i mi gael fy ordeinio i gyd-weinidogaethu, er mwyn i JR gael lleihau ychydig ar ei lwyth gwaith ac yntau'n pasio'r 'oed ymddeol swyddogol'! Er, dwi ddim yn siŵr a lwyddodd i wneud hynny chwaith. Bu mor ymroddgar wrth gyd-weinidogaethu â mi ag y bu cyn hynny. Rhaid dweud i'r naw mlynedd o gyd-weinidogaethu fod yn hynod werthfawr i mi. Rydan ni'n ffodus ein bod ni'n cyd-dynnu yn dda ac yn deall ein gilydd. Ond roedd cael cyd-weinidogaethu â gweinidog profiadol yn amhrisiadwy mewn gwirionedd.

Mae unrhyw un sy'n adnabod JR yn gwybod nad yw'n un sy'n hoffi ffŷs! Gweithiwr diwyd a thawel fu Dad erioed. Roedd Salem, wrth gwrs am nodi'r achlysur, ond mynnodd y byddai paned wedi'r oedfa yn ddigon. Dylid nodi i'r eglwys ddathlu deugain mlynedd ei weinidogaeth yn anrhydeddus ac fel y dywedodd; 'Doedd hynny ond 5 mlynedd yn ôl!' Ond pa well ffordd i ddathlu dros ddeugain mlynedd o weinidogaeth na chydag oedfa bore'r Pasg; oedfa o ddathlu a gorfoleddu. Gwn mai dathlu Crist ac nid fo'i hun fyddai JR am wneud, ond roedd yn bwysig nodi'r achlysur a chael cyfle i ddiolch iddo am ei weinidogaeth. Mynegodd gymaint o aelodau eu diolch iddo am ei arweiniad a'i ofal fel bugail iddynt. Cafwyd gair swyddogol o ddiolch ar ran yr eglwys gan Ifor ap Glyn a chyflwynwyd tysteb anrhydeddus gan yr eglwys gan drysorydd yr eglwys, Alun Jones.

Cefais i syrpréis ar ddiwedd yr oedfa hefyd wrth i Dad basio baton pren ymlaen i mi! Roedd y baton wedi ei 'droi' o bren y capel gan organydd, ac un o ymddiriedolwyr yr eglwys, Mr Ieuan Jones. Cafodd Dad gyfle hefyd i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y blynyddoedd; yn enwedig i Mam – Rhian – am ei chefnogaeth gyson.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd paned a chacen i nodi'r achlysur yn y festri a chyfle i rannu atgofion a pharhau i ddiolch am oes o wasanaeth.

O.N. Nid yw JR wedi ymddeol yn llwyr o'r weinidogaeth ordeiniedig gan ei fod yn parhau i weinidogaethu yn y Tabernacl, Porthaethwy, ble mae'r galwadau arno'n dipyn ysgafnach.

**Mererid Mair**
**Mai 2025**

*Dyma ddwy gerdd a gyfansoddwyd gan Ifor ap Glyn. Ysgrifennodd y gyntaf rhyw ddwy flynedd yn ôl ar gais gan Gisda pan oedd Ron yn ymddeol fel cadeirydd ac aelod o'r bwrdd ar ôl blynyddoedd lawer. Ysgrifennwyd yr ail gerdd yn arbennig ar gyfer bore Sul y Pasg eleni.*

## Y gŵr sydd â Gisda'n ei galon

(i Ron Williams)

Nid aeth efe o'r tu arall heibio,
– y gŵr sydd â Gisda'n ei galon –
ond arhosodd yn hytrach hanner einioes
yn herio anghyfiawnder, drwy hybu a helpu,
drwy ymgeleddu'r rhai heb do, heb dân.

Y gŵr sydd â Gisda'n ei galon
fu'n gadarn ei gadeiryddiaeth,
yn saernïo dadl yn dawel,
yn llifio problemau, llyfnu anawsterau,
gan asio trawstiau croes, er creu to.

Deallai fod parch wrth gael drws ffrynt,
fod gobaith yn goleuo'r ffenestri,
wrth roi'r allweddi mewn llaw ifanc;
gwyddai fod gwerth i'w efengyl ymarferol,
mai 'oedfa' gydol wythnos yw'r Dre,
a 'gwasanaeth' gydol oes.

Y gŵr sydd â Gisda'n ei galon
a'n bendithiodd â blynyddoedd lu
o fugeilio'r defaid di-gorlan.
A diolchwn yn daer am ddiwydrwydd ffyddlon
y gŵr fydd â Gisda, hyd byth yn ei galon.

## Gweinidogaeth Ron yn Salem

(1979–2025)

'Y mae amser i bob peth, ac amser i bob amcan dan y nefoedd'
Amser i gladdu, ac amser i gymuno,
amser i briodi, ac amser i fedyddio

Amser mynd i'r winllan er llafurio,
ac amser i roi'r rhaw a'r cryman heibio
(canys eraill a ddaw, i ailgydio
yn dy waith, i'w barhau heb ddiffygio)
Amser i ddathlu'r hyn sy'n goroesi;
amser addasu, ac amser arloesi

Amser clwb plant a rhamant drama'r geni;
amser AnniMeth, a chyfle i'r ifainc gyfrannu.
Amser i'w hyfforddi ymhen eu ffyrdd,
amser i blannu, ac i feithrin egin gwyrdd.

Amser i ddiolch, ac amser i gofio
yr holl ysbrydoli, y cynghori a'r cysuro
Amser i weddïo
am foddion gras mab Mair
Ac amser i addoli
ac i geisio gwirionedd y Gair

Amser i wynebu pob her,
â siarad cwrtais, ond plaen.
Ac amser i ddiolch eto,
am gymaint ... wrth edrych ymlaen.


## GOFALAETH

**Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf Bethel, Llanddewi Felffre a Triniti, Llanboidy**

Gwahoddir ymholiadau a cheisiadau oddi wrth weinidogion ordeiniedig a myfyrwyr sydd â diddordeb mewn gweinidogaethu yn yr ofalaeth hon.
Byddwn yn dilyn canllawiau Undeb yr Annibynwyr.

Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion erbyn 31 Gorffennaf 2025.

**Meryl James**

**E-bost:**
meryljames534@btinternet.com
**Ffôn:**
(01994) 240350
**Ffôn symudol:**
07977 553796

Yr Adran
Gydenwadol

MEHEFIN 26 2025 RHIF 226

# Gwasanaeth arbennig i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed

Daeth cefnogwyr, arweinwyr eglwysig, ysgolion a phartneriaid o bob cwr o'r byd ynghyd i nodi 80 mlynedd ers sefydlu Cymorth Cristnogol mewn gwasanaeth arbennig yn Abaty Westminster, Llundain. Ddydd Iau, 12 Mehefin, ymunodd tua 100 o bobl o Gymru â chynulleidfa o tua 2,000 o bobl i fyfyrio ar yr hyn mae'r mudiad wedi ei gyflawni dros yr wyth degawd diwethaf, gan roi diolch ac ailymrwymo i genhadaeth yr elusen i roi terfyn ar dlodi byd-eang. Ymhlith y rhai oedd yn cynrychioli eglwysi Cymru yr oedd y Gwir Barchedig Mary Stallard (Esgob Llandaf, yr Eglwys yng Nghymru), y Parchg Nan Powell-Davies (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), y Parchg Rob Nicholls (Undeb Bedyddwyr Cymru), Dr Cynan Llwyd (Cytûn) a'r Parchg Andrew Sully (Cadeirydd Cymorth Cristnogol Cymru ac un o ymddiriedolwyr yr elusen). Ymunodd disgyblion ifanc o ysgolion Llandaf City, Wick a Marcross, ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew's Major hefyd.

Sefydlwyd Cymorth Cristnogol yn 1945, pan ddaeth eglwysi ynghyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd i ystyried sut y gallent helpu'r miloedd o ffoaduriaid yn Ewrop oedd angen lloches a chynhaliaeth sylfaenol, a hynny wrth i'w cymunedau eu hunain ddioddef effeithiau'r rhyfel.

Dros 80 mlynedd, fel asiantaeth cymorth a datblygiad swyddogol eglwysi Prydain ac Iwerddon, mae'r eglwysi wedi harneisio rhywbeth grymus: Grym Anorchfygol Gobaith, sef thema'r flwyddyn arbennig hon. Dros y blynyddoedd, mae Cymorth Cristnogol:

- wedi cynnal Wythnos Cymorth Cristnogol – y digwyddiad elusennol wythnos o hyd sydd wedi para hiraf
- wedi helpu i sefydlu sefydliadau byd-eang fel y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC)
- wedi ymgyrchu yn erbyn apartheid ac o blaid newid ar faterion fel yr argyfwng hinsawdd, cyfiawnder dyled, a rhoi diwedd ar drais yn erbyn merched.



Yr arweinwyr eglwysig oedd yn bresennol yn yr orymdaith yn Abaty Westminster

Roedd y gwasanaeth yn cynnwys pregeth gan y Parchg Athro Dr Jerry Pillay, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd, a darlleniad gan y Parchg Kate Botley. Cafwyd perfformiad prydferth o'r gân 'When I Needed a Neighbour', a ysgrifennwyd yn wreiddiol gan Sydney Bertram Carter yn 1965 i nodi 20 mlynedd Cymorth Cristnogol, wedi'i hail-greu gan y Parchg Ally Barrett, Ficer Great St Mary's, Eglwys Prifysgol Caergrawnt, a Marsha Morrison o'r Kingdom Choir. Perfformiwyd y gân gan y Kingdom Choir, ynghyd â Sacred, côr gospel o ddisgyblion o Ysgol Twyford yn Llundain, a'r canwr/gyfansoddwr Emmanuel Smith. A chan bwysleisio thema pen-blwydd 80 Cymorth Cristnogol, perfformiodd y bardd o Lundain Storm Cecile ei cherdd ddiweddaraf, 'The Unstoppable Power of Hope'.

Yn ystod y dydd, rhannwyd tystiolaethau grymus gan ddau o bartneriaid Cymorth Cristnogol, sef Diana Gichengo, Cyfarwyddwr Gweithredol y Sefydliad Atebolrwydd Cymdeithasol (TISA), Kenya, a Bezwada Wilson, sefydlydd Safai Karmachari Andolan, India. Galwodd y ddau ar eglwysi'r Deyrnas Unedig i barhau i godi eu lleisiau'n ddewr dros gyfiawnder, i gefnogi mentrau eiriolaeth sy'n dod â newid parhaol drwy waith Cymorth Cristnogol, gan ddal gafael ar rym anorchfygol gobaith.

Yn ystod y diwrnod cynhaliwyd brecwast ar gyfer arweinwyr eglwysig yn Westminster a seremoni wobrwyo gwirfoddolwyr – seremoni 'Power of Hope Awards' y mudiad. Roedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew's Major yn Ninas Powys yn fuddugol yn y categori Cymdogion Byd-eang Ifanc, a mynychodd Morgan a Tomas, dau o'r disgyblion, y seremoni i dderbyn y wobr ar ran yr ysgol.

Dywedodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, 'Mae hi wedi bod yn fraint i ymuno â chymaint o'n cefnogwyr a gwirfoddolwyr o Gymru yn Westminster i nodi'r achlysur hanesyddol yma. Trwy addoliad, tystiolaethau grymus a thrafodaethau difyr, cawsom oll ein herio i ystyried sut mae *grym anorchfygol gobaith* yn ein galluogi i ofyn cwestiynau anodd ac i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi, megis yr argyfwng hinsawdd, gwrthdaro a systemau economaidd annheg. Ac i weithio tuag at fyd lle gall pawb ffynnu.'

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Cymorth Cristnogol yn 80 oed*

*(parhad o dudalen 1)*

Wrth edrych ymlaen at yr 80 mlynedd nesaf, cymerodd Cynan Llwyd ran yn y gweddïau yn ystod yr oedfa, gan ddweud: 'Rydym yn diolch i Dduw am rodd ei greadigaeth, a phopeth sydd yn rhoi gobaith inni ac yn ein cynnal yn ein gwaith. Rydym yn gweddïo dros holl gefnogwyr Cymorth Cristnogol a'n partneriaid, ac y bydd y rhai sy'n gweithio yng nghanol peryglon ac anawsterau yn cael eu cynnal gan gariad Crist. Arglwydd, yn dy drugaredd. Clyw ein gweddi.'

## Cadwch y dyddiad

Bydd Cymorth Cristnogol Cymru yn nodi'r pen-blwydd yn 80 oed gyda Chyfarwyddwyr Cymorth Cristnogol a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yng Nghaerdydd nos Fercher, 17 Medi, ac mae croeso cynnes i bawb.

## Gwobrau Grym Gobaith: gwobr Cymdogion Byd-eang Ifanc i ysgol yn Ninas Powys



Tomas a Morgan o Ysgol St Andrew's Major yng nghwmni staff Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Kate Botley ac Andrew Sully, cadeirydd Cymru

Yn dilyn gwasanaeth arbennig Cymorth Cristnogol yn Abaty Westminster ddydd Iau, 12 Mehefin, mynychodd rhai gwirfoddolwyr o Gymru de prynhawn a seremoni Gwobrau Grym Gobaith. Lansiwyd y gwobrau hyn i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol ac i anrhydeddu ymroddiad ei chefnogwyr ledled y Deyrnas Unedig. Enillodd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew's Major, Dinas Powys, wobr y Cymdogion Byd-eang Ifanc, ac yr oedd Morgan a Tomas, cynrychiolwyr o'r ysgol, yno i dderbyn y wobr yn Church House, Westminster.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'r ddau yn rhan o dîm o dywyswyr ifanc yn yr arddangosfa 'Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd' yn Senedd Cymru ym mis Tachwedd, gan roi areithiau ysbrydoledig i dorf fawr o Aelodau'r Senedd a'r cyhoedd. Fe wnaethon nhw hefyd gynrychioli Cymru yn arddangosfa 'Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd' ledled y Deyrnas Unedig yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mawrth. Mae'r ysgol bellach yn gweithio tuag at ddod yn Gymdogion Byd-eang Cymru, cynllun achredu gan Gymorth Cristnogol Cymru a'r Eglwys yng Nghymru i gefnogi, cydnabod a dathlu'r hyn y mae ysgolion cynradd yng Nghymru yn ei wneud i ddarparu addysg fyd-eang dda ac i arfogi pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar.

Dywedodd Ryan Trigg, sydd wedi arwain y fenter Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd yn yr ysgol ac a fynychodd y gwasanaeth a'r seremoni, 'Nid tlws neu deitl yn unig yw'r wobr hon. Mae'n symbol – o wydnwch, o undod, ac o gred yn nerth posibilrwydd a gobaith. Mae'n cydnabod bod ein lleisiau'n cael eu clywed, y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a'r tu hwnt i'r ysgol.'

Mynychodd prifathrawes yr ysgol, Jo Bayliss, y seremoni, a dywedodd ar ran yr ysgol: 'Rydym yn hynod ddiolchgar o dderbyn Gwobr Grym Gobaith – mae'n ennyd o wir falchder i'n dysgwyr a'n staff. Trwy'r prosiect "Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd", defnyddiodd ein dysgwyr gelf, llythrennedd a delweddau digidol i archwilio a mynegi eu pryderon am yr argyfwng hinsawdd. Rhannwyd eu gwaith grymus nid yn unig yn ein hysgol ond hefyd yn y Senedd ac yn Nhŷ'r Cyffredin.

'Roedden ni'n arbennig o falch o Morgan a Tomas, a siaradodd yn glir, yn ddewr ac yn llawn gobaith ar ran pobl ifanc Cymru wrth gynrychioli ein hysgol yn Llundain. Mae eu harweinyddiaeth yn wir yn adlewyrchu ysbryd cymunedol ein hysgol gyfan.

'Yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew's Major, rydym bob amser yn falch o sefyll ochr yn ochr â Chymorth Cristnogol. Mae'r bartneriaeth hon wedi'i gwreiddio'n ddwfn yng ngwerthoedd ein hysgol o dosturi, dinasyddiaeth fyd-eang, a ffydd ar waith.


'I ni, mae'n fwy na rhoi – mae'n ymwneud â dysgu, tyfu mewn dealltwriaeth, a bod yn rhan o rywbeth mwy na ni ein hunain. Mae gweithio gyda Cymorth Cristnogol yn caniatáu i'n cymuned ysgol gyfan fyw ein credoau mewn ffyrdd ystyrlon, gan helpu i adeiladu byd mwy teg a llawn gobaith i bawb.'

Dywedodd y Gwir Barchedig Mary Stallard, Esgob Llandaf: 'Roedd hon yn foment wych i Morgan a Tomas ac i Ysgol Gynradd St Andrew's Major! Mae'r wobr hon yn dystiolaeth enfawr o'r holl waith y mae'r dysgwyr a'r staff yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghyfiawnder tlodi byd-eang ym mywyd yr ysgol, ond mae'n fwy na hynny hefyd. Mae'r wobr hon yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn cymaint o'n hysgolion ar draws Esgobaeth Llandaf ac ar draws Cymru.

'Am 80 mlynedd, mae gwaith Cymorth Cristnogol wedi bod yn fflam gobaith yn y frwydr yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder yn ein byd. Bedwar ugain mlynedd yn ddiweddarach, roedd yn wych bod yn Abaty Westminster gyda chymaint o bobl o Gymru, gan gynnwys disgyblion o ysgolion cynradd St Andrew's Major, Llandaf City, a Wick a Marcross. Fe wnaethon ni ymuno â miloedd o bobl o Brydain ac Iwerddon yn y foment arbennig hon i fyfyrio ac ymrwymo unwaith eto i'r gwaith o roi ffydd ar waith ac o gynnig gobaith i gymunedau sydd ei angen fwyaf.'

# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 18: Achos ac effaith**

**Llyfr y Pregethwr 10:8–20**

Yma, mewn nifer o gasgliadau annibynnol o ddywediadau, mae'r Pregethwr yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng achos ac effaith, fel: 'Y mae'r un sy'n cloddio pwll yn syrthio iddo' (10:8). Mae'r syniad o gael eich dal yn eich magl eich hun yn thema gyson o fewn Llên Ddoethineb: 'Bydd yr un sy'n camarwain yr uniawn i ffordd ddrwg yn syrthio ei hun i'r pwll a wnaeth' (Diarhebion 28:10; gw. Diarhebion 26:27; Salmau 7:15; 9:15; 35:7–8).

**Yn y gwaith**

Ond o fewn rhestr y gorchwylion cyffredin – cloddio pwll, chwalu clawdd a symud cerrig – nid oes awgrym o fwriad drwg. Y neges syml yw bod angen cymryd pwyll wrth wneud gwaith peryglus. Os yw trap yn cau ar yr un a'i gwnaeth, neidr yn brathu wrth i amaethwr chwalu ei nyth, a.y.b., nid ar Dduw na neb arall y mae'r bai ond ar y gweithiwr ei hun. Diffyg gofal sydd i gyfrif am bob anffawd a ddaw i'w ran. Byddai parodrwydd i dderbyn hyfforddiant mwy trylwyr yn ei grefft wedi ei achub gan fod 'medr yn dod â llwyddiant' (10:10).

**Geiriau**

Yn y casgliad nesaf (10:12–15), mae'r Pregethwr yn troi at werth a pheryglon geiriau. Gwerthfawrogir geiriau'r doeth am eu bod yn creu cytgord rhwng cymdogion; ond mae'r ffôl yn ei ddifa'i hun am na fedr reoli ei dafod. Er iddo barablu'n ddi-baid, mae'n dechrau ac yn diweddu pob sgwrs 'mewn ynfydrwydd llwyr' am nad yw'n gwybod pryd i dewi.

**Gwleidyddiaeth**

Gwleidyddiaeth yw pwnc rhan olaf y bennod (10:16–20). Cyferbynnu gwlad hapus â gwlad anhapus a wneir yn adnodau 16 a 17 drwy sylwi fod urddas ac ymddygiad llywodraethwr yn dylanwadu ar deyrnas gyfan: 'Gwae di, wlad, pan fydd gwas yn frenin arnat'. Gall methiant brenin i gadw rheolaeth ar ei ddeiliaid arwain at ansefydlogrwydd a diofalwch ymhlith y tywysogion. Yn lle mynd i'w gwaith, esgeulusant eu dyletswyddau trwy dreulio'r bore'n gwledda (gw. Eseia 5:11–12; Diarhebion 31:4–5).

Ond gwyn fyd gwlad pan fydd ei brenin 'yn fab pendefig' (Pregethwr 10:17), ac yntau wedi ei drwytho mewn gwleidyddiaeth o'i ieuenctid. Mae aelodau llys llywodraethwr cymwys yn debygol o'i barchu drwy wledda 'ar yr amser priodol', gan ofalu eu bod yn ymddwyn yn gymedrol er eu lles eu hunain. Nid oes gan y Pregethwr unrhyw wrthwynebiad i fywyd bras yr uchelwyr, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r drefn.

Mae'n bosibl y bwriadwyd i'r ddwy ddihareb yn 10:18–19 gynnig sylwadaeth ar yr adnodau blaenorol (16–17). Gellir eu dehongli fel cyfeiriad at yr awdurdodau. Mae'r 'diogi' a'r 'llaesu dwylo' sy'n peri i adeilad fynd â'i ben iddo yr un mor andwyol yn achos teyrnas.

**Arweinwyr diog**

Roedd gan Israel brofiad o swyddogion diegwyddor. Cânt eu barnu'n llym gan y proffwydi am eu segurdod a'u difaterwch. Mae Amos yn lladd ar y pendefigion am 'orwedd ar welyau ifori ... canu maswedd i sain y nabl ... yfed gwin fesul powlennaid', ond heb boeni am ddinistr Joseff' (Amos 6:4–7; gw. Eseia 5:22–3; 28:7–8). Mae'r Pregethwr yn barod iawn i gydnabod fod gwledd a gwin yn 'llonni bywyd' (10:19), ond dyletswydd y cyfranogwyr yw ystyried cost y gwledda, er mwyn i'r arian gael ei wario ar achosion mwy teilwng.

'Paid â chablu Duw, na melltithio pennaeth o blith dy bobl' yw un o orchmynion Cyfraith Moses (Exodus 22:28). Yr oedd perthynas Israel â Duw trwy'r cyfamod ar Sinai yn hawlio parch nid yn unig tuag ato Ef, ond hefyd at y sawl a etholwyd ganddo i arwain ei genedl. Ond nid dyletswydd yr unigolyn i ufuddhau i'r Gyfraith sydd mewn golwg yma yn 10:20. Galwad ydyw yn hytrach i ddefnyddio synnwyr cyffredin ac i sylweddoli pa mor beryglus yw melltithio'r brenin a'r cyfoethog, hyd yn oed allan o glyw pobl eraill, am fod ganddynt ysbiwyr sy'n barod i gario clecs. Mae gair yn debyg i aderyn: unwaith y caiff ei ollwng yn rhydd, mae'n anodd iawn ei ddal.

Mae 'gan y cloddiau glustiau', ac felly'r peth doethaf fydd ymatal rhag beirniadu'r brenin a'i gynghorwyr. Mae hyn yn wir heddiw gan nad oes gan ganran sylweddol o boblogaeth y byd ddewis ond cymryd geiriau'r Pregethwr o ddifrif a pheidio â beirniadu'r awdurdodau os ydynt am osgoi cael eu cosbi fel bradychwyr.

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Pa enghreifftiau a ddaw i'ch meddwl o rai'n cael, neu wedi cael, eu cosbi am herio'u llywodraeth drwy alw am barch at hawliau dynol a rhyddid i fynegi barn yn gyhoeddus?
2. Trafodwch y syniad fod 'arian yn ateb i bopeth' (10:19).

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 29 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Trystan Lewis

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 29 Mehefin, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Tracy Jones, Bangor




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Penderfyniadau

Dyma'r penderfyniadau fydd yn cael eu rhoi gerbron y gynhadledd yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yr wythnos hon yn Nant Gwrtheyrn.

## 1. Palesteina

Galwn ar ein llywodraeth yma yng Nghymru i roi pwysau ar lywodraeth y wladwriaeth hon, y Deyrnas Unedig, i atal rhag cefnogi Gwladwriaeth Israel yn y rhyfel yn erbyn y Palestiniaid. Cywilyddiwn o feddwl fod llywodraeth y DU, yn arbennig y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Tramor, yn euog o droseddau rhyfel drwy hyrwyddo hil-laddiad a glanhau ethnig ym Mhalesteina, sef Gaza a'r Lan Orllewinol. Galwn ar i lywodraeth y Deyrnas Unedig i beidio â chaniatáu i'w lluoedd arfog gydweithio â llywodraeth lygredig Israel a'r IDF o safle'r llu awyr ar ynys Cyprus.

**Cynigydd:** Parchg Guto Prys ap Gwynfor
**Eilydd:** Parchg Tom Defis

*Cyflwynir ar ran Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin*

## 2. Cydweithio gydag A Rocha

Yn dilyn penderfyniad yr Undeb i gyfrannu'n ariannol tuag at waith mudiad A Rocha yng Nghymru dros y 3 blynedd nesaf, yr ydym yn galw ar holl eglwysi'r Undeb:

- i gofrestru ar raglen Eco Church A Rocha cyn gynted â phosibl;
- i gwblhau arolwg Eco Church A Rocha a gwneud cais am ddyfarniad;
- i lawrlwytho a gwneud defnydd o adnoddau Cymraeg Eco Church A Rocha
- i wahodd Swyddog Eco Church A Rocha yng Nghymru i ddod atynt i'w cynorthwyo gyda'r camau gallent eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a bod yn eglwysi eco a gwyrdd.

**Cynigydd:** Dr Fiona Gannon
**Eilydd:** Parchg Robin Wyn Samuel

*Cyflwynir ar ran yr Adran Dinasyddiaeth*

## 3. Rhaglen genhadol plant, ieuenctid a'u teuluoedd

Galwn ar yr Undeb i roddi ystyriaeth ddwys i'r posibilrwydd o lansio rhaglen fydd yn hyrwyddo a chefnogi blwyddyn o weithgaredd cenhadol yn ymwneud yn benodol gwaith plant, ieuenctid a theuluoedd yn ein heglwysi a'n cymunedau.

Yn y gorffennol bu swyddogion ieuenctid yn ein gwasanaethu'n ffyddlon a bu'r Adran Ieuenctid yn weithgar iawn, ond ers aildrefnu'r adrannau, nid ydym mewn gwirionedd, wedi llwyddo i roi sylw penodol i'r genhedlaeth iau.

Gofynnwn, felly, i'r Undeb, wrth ymateb i'n galwad i dalu sylw neilltuol i'r pwyntiau isod:

- lansio rhaglen swyddogol o weithgarwch
- darparu adnoddau digidol ac adnoddau defosiwn
- darparu hyfforddiant perthnasol
- cyflogi cydlynydd ar gyfer y rhaglen
- gosod strwythur clir i gyfundebau a gofalaethau i ddatblygu gweithgarwch plant, ieuenctid a theuluoedd o'u mewn.

**Cynigydd:** Parchg Owain Davies
**Eilydd:** Parchg Dylan Rhys Parry

*Cyflwynir ar ran adrannau Cenhadaeth a Thystiolaeth*

## 4. Croesawu eglwysi newydd


Galwn ar yr Undeb i ystyried y posibilrwydd o lunio proses fydd yn galluogi eglwysi newydd i ymaelodi â'r Undeb.

Gan fod nifer o eglwysi wedi eu plannu'n ddiweddar (e.e. gan 100 i Gymru a blannodd 10 i 15 o eglwysi annibynnol newydd eisoes), rydym yn teimlo bod cyfle i ddenu rhai ohonynt i fod yn aelodau o'r Undeb ac felly bydd angen ystyried y modd i wneud hynny a'r oblygiadau tebygol.

**Cynigydd:** Parchg Rhys Locke
**Eilydd:** Parchg Owain Davies

*Cyflwynir ar ran adrannau Cenhadaeth a Thystiolaeth*





*Barn Annibynnol*

# Cadw'n Gall

Rwy'n tybio i fwyafrif darllenwyr *Y Tyst* gael eu magu mewn oes pan oedd byddinoedd y goleuedig wedi rhoi taw ar Hitler, a James Bond yn goresgyn pob drygioni, roedd Martin Luther King wedi rhoi taw ar y KKK a ffilmiau Walt Disney yn pecynnu llawenydd a llwyddiant ym mhob diweddglo, ac roedd Jerry yn ddigon clyfar i guro Tom. Ar yr un pryd, fe ddysgon ni fod gweithio'n galed yn yr ysgol, cael swydd solet a dangos agwedd gadarnhaol yn rhwym o esgor ar fywyd dedwydd. Gweithio'n galed oedd y ffordd fwya sicr o oresgyn pob her. Roedd y sgript yno i ni gyd ei ddilyn. Trwy Band Aid, Cymdeithas yr Iaith, Cymorth Cristnogol, y Mudiad Gwrth Apartheid ac Ymgyrch Jiwbilî 2000 fe ddysgon ni fod pobl o egwyddor, gyda'i gilydd yn gallu creu gwell byd.

Gyda'n heglwysi yn cael eu rhedeg gan y genhedlaeth fu'n byw trwy'r oes aur honno, rwy weithiau'n pwslo sut allwn ni feithrin perthynas gyda'r genhedlaeth ifanc. Mae eu magwraeth hwythau wedi bod trwy oes traed moch Afghanistan ac Irac, Trump yn cario'r dydd yn America, Boris a Truss yn dwyn anfri ar wladweinyddion, yr hinsawdd yn araf chwalu'n gwareiddiad, Netanyahu yn mynd i ryfel yn ddidrugaredd gyda phawb o'i gwmpas, protestwyr hinsawdd yn derbyn dedfrydau hirfaith yn y carchar am stopio traffig yr M25, ein sefydliadau gwleidyddol a rhyngwladol yn methu â chreu cytgord, gwledydd y byd yn gwneud dim i roi stop ar hil-laddiadau – a phob un o'r rhain yn llenwi'n sgriniau newyddion yn ddyddiol. Ydy hi'n syndod fod canran fawr o'r boblogaeth yn amharod i wylio'r newyddion ac yn ymgolli yn lle mewn cant a mil o opsiynau llai heriol?

I'r rheiny ohonom sy'n methu, neu sy'n gwrthod cau'n clustiau a'n llygaid, mae hi wir yn anodd cadw'n gall weithiau. Efallai ei bod yn werth ystyried beth sydd angen i ni ei wneud i gadw'n iach yn feddyliol.

### Cadw'n gall mewn byd gwallgo

Yn gyntaf, mae cryfder meddyliol yn dod wrth wynebu realiti – hyd yn oed pan fydd hwnnw'n brifo. Mae'r Beibl yn



llawn storïau am unigolion, o Foses i Iesu, Ruth a Mair, a wynebodd heriau enfawr heb redeg i ffwrdd. Rhydd y dyfalbarhad hwn gryfder i unigolion, sydd hefyd yn eu helpu i osgoi'r embaras neu'r euogrwydd yn hwyrach o fod wedi methu ac wynebu heriau bywyd.

Yn ail, mae angen i ni fod yn ffyddlon i'n pwrpas, gan arfer integriti. Bob tro y byddwn yn dewis byw wrth egwyddor, yn hytrach nag optio am gyfleustra diegwyddor, byddwn yn cryfhau cyflwr ein hiechyd meddwl.

Yn drydydd, mae angen i ni weithredu empathi, cydymdeimlad a haelioni. Er gwaetha thema gyson ein hoes am ofalu am ein hunain a'n cenedl, gan adael i weddill y byd i fynd i'r cythraul, mae neges J. P. Pritzker, y gwleidydd Americanaidd, yn bwysig. Yn ei frwydrau yn erbyn yr Arlywydd Trump fe ddywed e fod byw'n hael ac agored yn ein symud oddi wrth y greddfau cyntefig anifeilaidd o ofalu am yr hunan a'n llwyth yn unig, a bod yr ymdrech i wneud hynny yn datblygu ein dynoliaeth ddyrchafol, mewn byd creulon. Mewn geiriau eraill, mae byw bywyd y gwynfydau yn ein gwareiddio i lefel uwch. Mae cryfder iechyd meddwl yn tyfu wrth fod yn ddigon dewr i fod yn ofalgar mewn byd sydd mor aml yn ddiofal.

Yn bedwerydd, mae ein hiechyd meddwl yn fwy diogel pan fyddwn yn meithrin y gallu i dderbyn pobl ac amgylchiadau, fel y maen nhw. Roedd greddf Iesu o weithio gyda phobl a'u derbyn a'u caru yn y man lle roedden nhw, ac yn y cyflwr yr oedden nhw, yn wers i ni gyd. Mae'n llawer llai o straen arnom i dderbyn pobl, yn hytrach na byw gyda'r rhwystredigaeth o fynnu eu bod nhw'n plygu i'n ffordd ni.

Duw a ŵyr beth fydd siâp y byd ymhen degawd. Ond mae tystiolaeth gan seicolegwyr yn dangos os allwn ni barhau i wynebu'r realiti o'n cwmpas, byw yn unol ag egwyddorion, gydag integriti, gweithredu'r gwynfydau a derbyn pobl fel y maen nhw, bydd yn beth da i ni. Mewn geiriau eraill, mae ceisio byw i ymgorffori ysbryd Crist yn dda, nid yn unig i eraill, ond i ni hefyd.

**Geraint Rees**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Cyflwyno'r Gadair Ddur

Un o freintiau diweddar Soar-Maesyrhaf fu noddi Cadair Eisteddfod yr Urdd, Dur a Môr, Margam 2025.



*Y Gadair Ddur ysblennydd o waith Angharad Pearce Jones*

Mae'r eglwys sydd â'i seiliau ym 1695 'yma o hyd'. Mae'n ymhyfrydu yn ei haelioni tuag at elusennau a gyda'r cyntaf i gefnogi Cymorth Cristnogol. Hi yw'r unig eglwys Gymraeg yn nhre Castell-nedd bellach ac mae iddi draddodiad o gefnogi'r 'pethe' ac elusennau lleol a chenedlaethol. Bu'r aelodau yn rhan o sefydlu'r Ysgol Gymraeg yn 1954, Ysgol Ystalyfera yn 1969 a changen gynnar o Ferched y Wawr a'r papur bro *Clecs y Cwm* ac yn gefnogol i lu o weithgarwch diwylliannol ar hyd y blynyddoedd. Cafodd blant yr eglwys brofiadau gwych ac maent yn ddyledus i ddylanwad Soar-Maesyrhaf.

Cyfeiriodd y Parchg Gareth Morgan Jones, gweinidog Soar-Maesyrhaf, at yr etifeddiaeth yma wrth gyflwyno'r Gadair. Angharad Pearce Jones o ardal Brynaman sydd wedi cynllunio a chreu'r Gadair.

Bu'n ymweld â'r capel wrth ymchwilio hanes yr adeilad a chael ysbrydoliaeth bellach: 'Yn rhyfeddol, roedd y gwaith pren a lliwiau coch a hufen pibau'r gweithfeydd dur yn debyg i liwiau'r capel. Roedd yna ymdeimlad o gysylltiad cryf rhwng y ddau safle.'



*Angharad Pearce Jones, y Parchg Gareth Morgan Jones, ac aelodau Soar-Maesyrhaf adeg dadorchuddio'r gadair*

Defnyddiwyd rhai o'r darnau olaf o ddur gweithfeydd Tata Steel yn nyluniad y wobr, er mwyn talu teyrnged i dreftadaeth ddiwydiannol cartref Eisteddfod yr Urdd eleni, a gynhaliwyd ym Mharc Margam, Port Talbot. Mae gwead a datblygiad holl gymunedau'r ardal yn seiliedig ar y traddodiad o fwynha, trin metelau a chloddio am lo. Hwyliodd yr Almaenwr Ulrich Frosse i fyny afon Nedd i Aberdulais er mwyn trin copr mor gynnar â 1584 a bu'r ardal yn grud i'r Chwyldro Diwydiannol.

Diolch iddi am ei gweledigaeth wrth gynllunio'r gadair. Mae'n hardd a gosgeiddig a thu hwnt o grefftus.

Ychwanegodd Gareth Morgan Jones, 'Mae'r gofaint yn hen grefft a cheir cyfeiriad ato yn yr Hen Destament a pharhaodd y traddodiad yma yng Nghymru.' Cofiwn am Dafydd yr Efail Fach, un o *Hen Wynebau* D. J. Williams a 'Chywydd y Gof' William Edwards, Rhyd-y-main.

Cyfeiria Iorwerth Peate at y grefft :

A chwithau'r gofaint eiliwch gân
Caned yr eingion ddur a'r tân;
Caned morthwylion glod i Dduw
Am un a droes pob marw yn fyw ...

Braint oedd cyflwyno'r gadair ysblennydd yma i Eisteddfod yr Urdd, Dur a Môr ac edrychwyd ymlaen at y seremoni a gweld y bardd yn eistedd yn hedd yr Eisteddfod.

### Cefnogi'r Urdd

Mae Nia Eleri, ymddiriedolwraig a chyhoeddwraig ieuengaf yr Annibynwyr, mae'n siŵr, yn frwd dros holl weithgarwch Soar-Maesyrhaf. Mae'n swyddog gyda'r Urdd yng ngorllewin Morgannwg ac yn weithgar dros y mudiad. Braf oedd ei chefnogi hi wrth noddi'r gadair. Roedd gweithgarwch Nia wedi talu ar ei ganfed – roedd dros 13,000 o gystadleuwyr o fro'r Eisteddfod wedi cymryd rhan yn y cystadlu, 11% o holl gystadleuwyr yr ŵyl ac roedd 36 o ysgolion ail-iaith o'r ardal Gorllewin Morgannwg wedi cystadlu yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf erioed.

### Crefft yr arlunydd

Yn ystod noson y dadorchuddio cafwyd arwerthiant a llwyddodd Joanna Porter, un o ddiaconiaid Soar-Maesyhaf, brynu darlun trawiadol o Gapel y Baran gan Joanna Jones, Aberteifi. Roedd y darlun yn rhan o gyfres 'Capeli Cwm Tawe' a baratowyd rhai blynyddoedd yn ôl. Merch o Lansamlet yw Joanna Jones ac mae gan Gareth Porter, mab Joanna, fferm ar Fynydd y Baran. Llecyn anghysbell yw'r Baran, uwchben Rhyd-y-fro a chynhelir oedfaon yno, unwaith y mis.

**Gareth Richards**



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*